




Canolfan Addysg Y Bont

Adroddiad Blynyddol Corff Llywodraethol i Rieni

2020-2021



Manylion cyfarfodydd (gan gynnwys rhithiol) y Corff Llywodraethol

Cynhaliwyd gyfarfodydd Corff Llawn a neu arbennig/Covid ar y dyddiau canlynol:

21/10/20 – Corff Llawn
15/12/20 – Corff Llawn
02/02/21 – Is-banel Cyllid
02/02/21 – Corff Llawn
27/04/21 – Is Banel Cyllid
27/04/21 – Corff Llawn
13/07/21 – Corff Llawn
31/08/21 – Cyfarfod Arbennig

Cyfarfodydd Blynyddol y Llywodraethwr gyda rhieni

Ni gynhaliwyd gyfarfod blynyddol llywodraethwyr i rieni yn 2020-2021 gan nad oedd canran penodol o rieni wedi ymateb drwy ddeiseb



Canolfan Addysg Y Bont

Adroddiad Blynyddol Corff Llywodraethol i Rieni

2020-2021



Aelodaeth y Corff Llywodraethol

Sean Snape (Cadeirydd)	-	Cynrychiolydd Rhieni
Peter Davies OBE (Is-gadeirydd)	-	Cyfetholedig
Dyfrig ap Dafydd	-	AALI
Donna Calveley	-	Cynrychiolydd Rhieni
Eileen Clarke (Amddiffyn Plant)	-	Cyfetholedig/Cynrychiolydd Mudiadau Gwirfoddol
Gwilyn Pritchard	-	Cyfetholedig
Dylan Rees	-	AALI
Adrian Williams	-	Cynrychiolydd Rhieni
Iris Williams	-	Cynrychiolydd Rhieni
Lloyd Williams	-	AALI
Dawn Hoban	-	Athrawon
Tabitha Mead	-	Staff
Andreas Huws	-	Pennaeth
Meinir Wyn Williams	-	Clerc

Gellir cysylltu gyda Meinir Williams neu Sean Snape drwy gysylltu â Canolfan Addysg Y Bont
Gweler Pennod 4 o 'Welsh Government Guide to the Law'



Presenoldeb

	15/16	16/17	17/18	18/19	19/20	20/21
Absenoldebau awdurdodedig %	6.2	4.4	4.9	5.4	4	6.2
Absenoldebau anawdurdodedig %	0	0	0.05	0	0	0
Pob absenoldeb %	6.2	4.4	5.04	5.4	4	6.2
Presenoldeb %	93.8	95.6	94.96	94.6	96 (94.5 hyd at 23/03)	93.8

Prif Lwyddiannau'r Flwyddyn

- Parhau i sicrhau addysg wyneb i wyneb
- Derbyn Nod Ansawdd Ysgol Gyfathrebu Gyfeillgar (Elkfan)
- Derbyn statws Ysgol ECO
- Cyfrannu i ystod prosiectau diwylliannol a chreadigol

Addysg Gorfforol

Mae'r ysgol yn parhau (ble mae Covid yn caniatáu) i roi cyfleoedd gwahanol i'r disgyblion i ddatblygu eu galluoedd corfforol drwy brofi amrywiol chwaraeon a chystadlaethau gan gynnwys Mabolgampau/Chwaraeon Cenedlaethol a Marchogaeth i'r Anabl, Gymnasteg, 'Anglesey Outdoors', Hyfforddiant penodol e.e. Hoci, Tennis a Rygbi, cystadlaethau pêl-fasged, nofio, rhedeg traws gwlad, bowlio a



Cyfleusterau Toiled

Mae 8 ystafell toiled yn yr ysgol i ddisgyblion (4 i ferched a 4 i fechgyn). Mae toiled sydd yn addas i ddefnyddwyr cadair olwyn ymhob ardal o'r ysgol. Yn ystod y tymor ysgol mae'r toiledau yma yn cael eu glanhau a'u cynnal yn ddyddiol gan staff sydd wedi derbyn hyfforddiant.

Datganiad Llawn o Wariant ac Incwm yr ysgol

Gwariant	£
Gweithwyr	1,881,990
Adeiladau	196,260
Cyflenwadau A Gwasanaethau	29,140
Costau cerbydau	6,430
Datganoli	25,400
Cyfanswm Gwariant	2,139,220
Incwm	
Grantiau	31,050
Cyfraniad Iechyd	5,000
CYFANSWM INCWM	36,050
CYFANSWM NET GWARIANT	2,103,170
DYRANIAD (heb y grantiau)	1,960,340
Gwahaniaeth 2019/2020	-142,830

Grantiau

Diben y Grant Datblygu Disgyblion yw gwella canlyniadau i ddysgwyr sy'n dod o deuluoedd incwm isel ac sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYD). Yn 2020-21 rhoddwyd i Canolfan Addysg Y Bont ddyraniad Grant Datblygu Disgyblion o £37,950. Mae gennym gynllun cynhwysfawr i hyrwyddo cynnydd a chael gwared ar rwystrau i ddysgu i fyfyrwyr sy'n gymwys ar gyfer y cyllid hwn

Defnyddiwyd y grant i gyflogi athrawes llawn amser am y cyfnod Mawrth 20 i Awst 21, 2 athro rhan amser am y cyfnod Medi 20 i Mawrth 21 ynghyd a chyflogi aelod o staff ac archebu nwyddau i ddatblygu HWB gyfathrebu.

Derbyniwyd grant o £19,650 mewn perthynas a Grant Gwella Addysg ac fe'i ddefnyddiwyd yn bennaf i gyllido yn erbyn lleihau'r risg o ddiffyg capasiti staffio yn ystod y pandemic, yn benodol i gyllido staff llanw er mwyn sicrhau addysg wyneb i wyneb a strwythurau lles i ddisgyblion CAYB.

Defnyddiwyd y grantiau yma i ddatblygu'r Llwybrau Dysgu (anffurfiol, lled-ffurfiol, ffurfiol) o fewn CAYB, ac i ariannu hyfforddiant barhaus gan Peter Imray (Equals).

Defnyddiwyd y Grant Adfer & Recriwtio i sicrhau gwell cymhareb staffio/disgybl (yn bennaf yn yr Adran Cynradd)

Camau a gymerwyd i gryfhau cysylltiadau cymunedol

Mae'r Corff yn parhau yn ei hymdrech i gynnal y ddolen gyswllt sydd rhwng y gymuned leol a'r ysgol, er mwyn galluogi'r disgyblion i ddysgu ymddwyn a rhyngweithio yn foddhaol mewn gwahanol sefyllfaoedd. Y mae'r gweithgareddau yn cynnwys y canlynol:

Ymateb cadarn i'r agenda Covid, gan gynnwys sicrhau Canolfan Gofal Hwb yn ystod y pandemic

Rhwydweithiau Datblygiad Proffesiynol Prifysgol Bangor

Cefnogi digwyddiadau cymunedol drwy'r Adran Gerddoriaeth, Celf ac Addysg Gorfforol

Reidio i'r Anabledd – Riding for the Disabled Association (RDA)

Cyd weithio yn y gymuned gyda Gorwel - Profiad gwiath ac addysg awyr agored

Cysylltiad y Prince's Trust/John Eggins Trust

Cysylltiad â Menter Môn, Oriel Môn

Theatr a phantomeim/arddangosfeydd Celf, Dawns i Bawb

Cystadlaethau lleol a chenedlaethol yr Urdd

Ymweld â lleoliadau hanesyddol diddorol yn ein hardal

Cyswllt ag ysgolion a cholegau eraill ynghyd a phrofiadau gwaith i ddisgyblion

Ymweliadau a busnesau lleol

Ymweliadau Ysgol Goedwig

Ymweliadau Heddlu i'r ysgol

Prosiect Pontio (Bangor)

Cyswllt â Cerddorfa Cenedlaethol Cymru (BBC)

Cymryd rhan mewn Noson Lawen S4C

Cynnal sesiynau Rygbi a Hoci i ddisgyblion

Blaenoriaethau CGY 2021-2022

Blaenoriaeth 1:

Ymateb i'r agenda COVID (a'r normal newydd) drwy;

- Sicrhau ein bod yn medru ymateb ar fyrder i ofynion Dysgu o Bell (DOB)
- Sicrhau ein bod yn medru ymateb ar fyrder i ofynion Gweithio o Gartref (GOG), a bod hyn hefyd yn asio i Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus Staff
- Cyfathrebu amserol ag effeithiol i rieni
- Hybu Iechyd Meddwl/Lles y gymuned ysgol

Mabwysiadu systemau mewnol sy'n ffocysu ar gynnal darpariaeth a chynhaliadau sydd mor chyson a normal ag sy'n bosib o ystyried cyd-destun Covid, a'r newid sylweddol i gymdeithas sydd ynghlwm

Blaenoriaeth 2:

Ymateb i'r agenda adfer Uwchradd/Softplay/Synhwyrol drwy;

- Medru gweithredu ar fyrder yn debyg i Flaenoriaeth 1 mewn achos o argyfwng
- Sicrhau addysg wyneb i wyneb 100% os yn bosib
- Cynnig cwricwlwm mor llawn â phosib o dan yr amgylchiadau a gan ystyried capasiti staff/gofod
- Ymateb i unrhyw heriau lles (arall) o ganlyniad i drefniadau amgen mor fuan â phosib
- Ymateb i unrhyw heriau I&D/ymarferol o ganlyniad i drefniadau amgen mor fuan â phosib

Cyfathrebu clir a chyson â rhieni ble mae'r trefniadau amgen yn dylanwadu

Blaenoriaeth 3:

- Addasu'r cwricwlwm i gyd-fynd a gofynion dyfodol llwyddiannus/CiG, (a ble'n berthnasol llunio cwricwlwm mwy addas i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu dwys a lluosog)
- Alunio ag asio Llwybrau (Pathways/mewnbwn PI Equals) gan ystyried y CiG a chynllunio traws ysgol
- Parhau i weithredu strategaethau asesu ffurfiannol drwy ddefnyddio technegau cyfoethogi Shirley Clarke, er mwyn cyfoethogi arfer dda athrawon wrth ymwneud a hyder, annibyniaeth a chynnydd disgyblion

Noder: Mae'r flaenoriaeth yma wedi'i lunio ar ffurf Datblygu Model Rhesymeg GWE

Blaenoriaeth 4:

Addasu ein dulliau o osod targedau unigol i well cyd-fynd a i) deilliannau ii) cwricwlwm newydd CiG iii) Bil ADY

Blaenoriaeth 5:

Parhau i esblygu meddylfryd, systemau a dulliau gweithredu i gyd-fynd a Bil ADY gyda ffocws penodol ar ddulliau Person Canolog Unigol ar lawr dosbarth.

Blaenoriaeth 6:

Fel rhan o'r agenda hunan wella a datblygu arweinwyr; ymgymryd mewn ffrydiau cydweithio NPEP, EDT, EQUALS, prosiectau cymheiriaid ac amcanion gwedd 2 Y Gwasanaeth ADY/Ysgolion Arbennig y Rhanbarth

Tymhorau'r Flwyddyn

01 Medi 20 - 28 Rhagfyr 20

4 Ionawr 21 - 26 Mawrth 21

12 Ebrill 21 - 20 Gorffennaf 21

Oherwydd Covid gweithredu fel Hwb trwy gwyliau Pasg a Sulgwyn

Roedd yr ysgol ar gau i ddisgyblion ar y dyddiau canlynol oherwydd HMS i athrawon

02/09/20, 03/09/20, 23/10/20, 04/01/21, 12/04/21, 21/06/21

